Teitl Swydd: Cydlynydd Allgymorth ac Ymgysylltu

**Teitl Swydd:** Cydlynydd Allgymorth ac Ymgysylltu
**Llawn Amser**
**Wedi'i lleoli yng Nghaerdydd**
**Cyflog:** £28,000 y flwyddyn
**Yn adrodd i:** Rheolwr Rhanddeiliaid
**Yn gyfrifol am:** Arweinwyr Dawns; hwyluswyr dawns llawrydd

**Pwrpas cyffredinol y rôl hon:**

Mae'r Cydlynydd Allgymorth ac Ymgysylltu yn gyfrifol am gynllunio a rhoi ar waith rhaglenni cyfranogi cymunedol Rubicon i sicrhau bod safon ardderchog o weithgareddau yn cael eu darparu o fewn yr adeilad ac mewn lleoliadau allanol, ac i gynyddu amlygrwydd y sefydliad o fewn yr ardal gyfagos.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gydag ystod o rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd, awdurdodau lleol ac asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus, grwpiau cymunedol, elusennau a mudiadau'r trydydd sector eraill, i adeiladu rhwydweithiau partneriaeth llwyddiannus a chryf a darparu rhaglenni lluosog i fynd i'r afael ag anghenion a nodwyd.

**Sut i Wneud Cais:**

I wneud cais, anfonwch CV a llythyr cais at simon@rubicondance.co.uk.

**Dyddiad cau:** 12 Chwefror 2025
**Cyfweliadau:** wythnos yn cychwyn 24 Chwefror 2025

Yn eich llythyr cais dylech esbonio pam rydych yn meddwl eich bod yn addas ar gyfer y swydd a dangos eich profiad a sgiliau yn ôl Manyleb y Person yn adran Disgrifiad y Swydd. Gallwch ei gyflwyno'n ysgrifenedig, mewn fideo neu ffeil sain, neu unrhyw fodd arall sy'n hygyrch i chi.

- Ni ddylai llythyrau ysgrifenedig fod mwy na dwy dudalen.
- Ni ddylai ceisiadau fideo/sain fod mwy na 10 munud.
- Os hoffech wneud cais mewn ffurf arall, cysylltwch â ni.

Mae Rubicon Dance yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac wedi ymrwymo i wella ei amrywiaeth er mwyn adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Byddem yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir ac yn enwedig yn annog unigolion gyda phrofiadau a safbwyntiau amrywiol i wneud cais.

# Disgrifiad Swydd

**Teitl Swydd:** Cydlynydd Allgymorth ac Ymgysylltu
**Cyflog:** £28,000 y flwyddyn
**Yn adrodd i:** Rheolwr Rhanddeiliaid
**Yn gyfrifol am:** Arweinwyr Dawns; hwyluswyr dawns llawrydd
Gwelwch siart presennol y sefydliad sy'n dangos strwythur y cwmni gan gynnwys y perthnasau adrodd rhwng gweithwyr.

**Pwrpas cyffredinol y rôl hon:**
Mae'r Cydlynydd Allgymorth ac Ymgysylltu yn gyfrifol am gynllunio a rhoi ar waith rhaglenni cyfranogi cymunedol Rubicon i sicrhau bod safon ardderchog o weithgareddau yn cael eu darparu o fewn yr adeilad ac mewn lleoliadau allanol, ac i gynyddu amlygrwydd y sefydliad o fewn yr ardal gyfagos. Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gydag ystod o rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd, awdurdodau lleol ac asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus, grwpiau cymunedol, elusennau a mudiadau'r trydydd sector eraill, i adeiladu rhwydweithiau partneriaeth llwyddiannus a chryf a darparu rhaglenni lluosog i fynd i'r afael ag anghenion a nodwyd.

## Cyfrifoldebau Allweddol

- I ddatblygu a chydlynu holl weithgareddau prosiectau ymgysylltu ac allgymorth, gan gynnwys ar gyfer grwpiau cymunedol penodol a dargedwyd
- I gynyddu cyfranogiad yn rhaglen barhaus gweithgareddau cymunedol y sefydliad gan godi ei broffil ac annog ymgysylltiad newydd
- I ddatblygu cysylltiadau newydd gyda grwpiau cymunedol yng Nghaerdydd a Chymru
- I gydweithio gyda sefydliadau yn y sector gwirfoddol a chelfyddydol eraill yng Nghaerdydd a Chymru
- I gynrychioli'r sefydliad mewn fforymau cymunedol o fewn a thu hwnt i Gaerdydd
- I oruchwylio a chefnogi gwaith yr hwyluswyr dawns wrth ddarparu'r rhaglen gyfranogi, gan gynnwys datblygu a chefnogi digwyddiadau perfformio, a gweithredu *Arts Awards*
- I gymryd cyfrifoldeb am fynediad cyffredinol i gyd i brosiectau allgymorth, gan gynnwys recriwtio cyfranogwyr, paratoi contractau, a sicrhau bod gwiriadau diogelwch ac asesiadau risg digonol wedi cael eu gwneud
- I oruchwylio prosesau monitro a gwerthuso effeithiol o fewn pob prosiect ac i gasglu adroddiadau a diweddariadau priodol ac amserol i gyllidwyr a rhanddeiliaid eraill
- I sicrhau bod prosiectau yn aros o fewn y gyllideb a bod adnoddau yn cael eu rheoli'n dda
- I weithio gyda'r Gweinyddwr i sicrhau bod gan y sefydliad fanylion cyswllt mwyaf diweddar ar gyfer grwpiau cymunedol, ysgolion ac unigolion allweddol
- I gynnig cymorth a chyngor i aelodau staff eraill wrth gynllunio a rhedeg prosiectau cymunedol ac allgymorth a chyfrannu at drafodaethau cynllunio busnes o safbwynt allgymorth

- Adnabod cyfleoedd newydd ar gyfer cyllid prosiect a gweithio gyda'r Cydlynydd Codi Arian i sicrhau'r rhain
- Darparu arweinyddiaeth, canllaw, datblygiad a chymorth i Dîm Hwyluswyr Dawns

## Byddwch chi

- Yn gallu gweithio ar eich liwt eich hunan
- Yn barod i ddysgu ac addasu sgiliau newydd
- Yn addasadwy, hyblyg ac yn teithio yn ôl gofyn y rôl
- Yn berchen ar gar, yn gyrru ac â thrwydded ac yswiriant sy'n cynnwys defnydd busnes; neu â mynediad at drafnidiaeth breifat neu gyhoeddus addas; ac yn gallu ac yn fodlon i gludo unrhyw eitemau sy'n ofynnol i berfformio'r rôl
- Yn gallu ac yn fodlon i weithio nosweithiau a phenwythnosau yn ôl y gofyn
- Yn cynnal ein Gwerthoedd a chefnogi amcanion y sefydliad, yn fewnol ac yn allanol
- Â golwg trwsiadus a phroffesiynol
- Yn perfformio unrhyw weithgareddau neu ddyletswyddau fel y bo'n ofynnol gan y sefydliad

## Manyleb y person

Mae'r fanyleb hon yn cynnwys y profiad, sgiliau, ayb, sydd yn ofynnol i ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol (fel yr amlinellir yn ddisgrifiad y swydd) a hon bydd sylfaen y detholiad.

| **Addysg a Chymwysterau** | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| Gradd Baglor mewn pwnc creadigol neu brofiad proffesiynol cyfwerth | ✓ | |
| Cymhwyster rheoli prosiectau | | ✓ |
| Achrediad blaenorol neu gymhwyster iechyd a diogelwch | | ✓ |
| **Profiad** | **Hanfodol** | **Dymunol** |
| Profiad profedig mewn rôl debyg mewn allgymorth cymunedol neu gysylltiadau cyhoeddus | ✓ | |
| Gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad o ddarpariaeth greadigol mewn lleoliad cymunedol | ✓ | |
| Profiad o weithio gyda phoblogaethau amrywiol | | ✓ |
| Profiad gyda rheoli'r cyfryngau cymdeithasol a marchnata digidol | | ✓ |
| **Sgiliau, gwybodaeth a gallu** | **Hanfodol** | **Dymunol** |
| Sgiliau rheoli prosiect a threfnu ardderchog | ✓ | |
| Gwybodaeth helaeth am adnoddau a gwasanaethau cymunedol | | ✓ |
| Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig ardderchog | ✓ | |
| Y gallu i siarad Cymraeg neu'n barod i ddysgu | | ✓ |

Bwriedir fod y disgrifiad swydd hwn yn arwydd amlinellol o feysydd cyffredinol o weithgaredd a all gael ei ddiwygio yng ngoleuni newidiadau i anghenion Rubicon. Disgwylir y bydd deiliad y swydd mor gadarnhaol a hyblyg â phosib wrth ddefnyddio'r ddogfen hon fel fframwaith.

